ATODIAD / ENCLOSURE
F

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **11 Mehefin 2014** |
| **Teitl yr Adroddiad** | **Canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru 12 Mawrth 2014 i 11 Mehefin 2014** |
| **Adroddiad gan** | **Cyfreithwraig Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad** | **Darparu gwybodaeth ar y materion y rhoddwyd sylw iddynt gan Banel Dyfarnu Cymru** |

## 1.0 Cyflwyniad a Chefndir

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru yn unol o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos dros dro i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliadau i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chôd ymddygiad eu hawdurdod; ac
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r côd ymddygiad.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 12 Mawrth 2014 a 10fed o Mehefin 2014 ac fe'i bwriadwyd fel crynodeb ffeithiol o'r materion sy'n dod gerbron y Panel Dyfarnu. Ni fydd yn disodli'r adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor pan fydd Panel Dyfarnu yn rhoi sylw i gŵyn sy'n ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn.

## 2.0 Penderfyniadau a wnaed rhwng 12.03.2014 a dyddiad yr adroddiad hwn

21/02/2014 – Cyngor Tref Llandrindod - APW/001/2013-014/CT

Gweler y Tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r materion a drafodwyd a chanlyniadau'r achosion uchod.

| Enw | Crynodeb | Darpariaethau Perthnasol y Côd | Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyng. Nathan Casey | • Ymddwyn tuag at yr achwynydd mewn modd a fyddai'n cyfateb i aflonyddu yn cynnwys cynnal arolwg fyddai'n camarwain y cyhoedd ac yn niweidio enw da'r achwynydd. Nodwyd mewn neges ar Facebook i'r achwynydd mai pwrpas yr arolwg oedd "i'ch stopio chi rhag dod yn aelod o fwrdd llywodraethwyr ysgol gynradd ym Mhowys";<br><br>• Anfon e-byst a phostio negeseuon ar Facebook oedd yn amharchus ac yn achosi gofid;<br><br>• Dim yn rhoi gwybod i'r Ombwdsmon am yr hyn a oedd, yn ei farn ef, yn achos o dorri'r côd ymddygiad i'r Ombwdsmon a dim yn ymgysylltu yn y broses ymchwilio;<br><br>• Ni wnaed sylwadau llafar i'r Tribiwnlys Achos oherwydd nad oedd y Cyng. Casey yn bresennol, ac fe wnaed penderfyniad yn seiliedig ar sylwadau ysgrifenedig. | Torri para 4(b), 4(c), 6(1) (c) a 6(2) y côd ymddygiad. | Anghymwyso am 3 blynedd. | • Roedd y Cyng. Casey wedi anwybyddu gwybodaeth a chyngor gan y Swyddog Monitro a'r Heddlu ac wedi parhau i gynnal arolwg a oedd yn cyflwyno gwybodaeth rannol a chamarweiniol am gyd-gynghorydd ac a oedd yn debygol o achosi niwed enfawr i enw da a llawer iawn o ofid.<br>• Wedi anfon nifer o e-byst a phostio sylw ar dudalen Facebook Cyng. Turner oedd yn fygythiol ac yn debygol o fychanu'r derbynnydd.<br>• Roedd y Cyng. Casey wedi gwrthod yn bendant i ateb cwestiynau neu gydweithredu gydag ymchwiliad yr Ombwdsmon. |